# 7. Arweinyddiaeth

## Cymwyseddau:

a. Ysgogi ac annog grwpiau ac unigolion
b. Rhoi cyfeiriad ac adborth i grŵpiau perthnasol
c. Creu awyrgylch o barch
ch. Trosglwyddo gweledigaeth yn effeithiol i grwpiau ac unigolion
d. Adnabod a deall sut mae eraill yn ymateb i sefyllfaoedd penodol gan barhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth
dd. Annog unigolion i ddatblygu eu hunain
e. Adnabod a deall y niwed posib a wneir pan na roddir sylw prydlon i achosion o wrthdaro
f. Annog cydweithrediad a chyfathrebu ar draws ffiniau gwleidyddol a ffiniau'r Cyngor
ff. Gweithio fel pont rhwng Gwasanaethau ac Aelodau pan fydd angen

## Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd effeithiol:

- Yn cynnal sesiynau briffio effeithiol a defnyddio dull o gyfathrebu dwy ffordd yn rheolaidd ac aml
- Yn barod i gyfaddef bai neu gamgymeriad
- Yn barod i newid ei farn yng ngoleuni tystiolaeth newydd
- Yn derbyn penderfyniadau a wnaethpwyd fel rhan o broses ddemocrataidd y Cyngor
- Yn datrys achosion o wrthdaro a gwrthdaro posib trwy weithredu'n sydyn ac effeithiol
- Yn annog arloesedd a mentro gofalus, gan ddysgu o gamgymeriadau a gwella oddi wrthynt
- Yn symbylu ymddiriedaeth mewn eraill ac yn cael ymrwymiad i bolisïau a phenderfyniadau
- Yn llunio diwylliant o ragoriaeth ac yn gweithredu fel model rôl o ran ymddygiad priodol, arfer foesegol a'r broses ddemocrataidd
- Yn creu perthnasau priodol a chryf gydag uwch swyddogion ac Aelodau'r Bwrdd yn seiliedig ar gyfathrebu'n agored, cydweithio ac ymddiriedaeth
- Yn gweithredu fel wyneb cyhoeddus y Cyngor ac yn pledio anghenion y Cyngor mewn trafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol
- Yn gweithio ar draws ffiniau gwleidyddol a ffiniau'r Cyngor er mwyn meithrin cyfathrebu ac annog cydweithrediad
- Yn barod i ddatrys problemau ac yn gallu gwneud hynny, gallu barnu pa bryd i gymryd rhan a pha bryd i ddweud 'Na'
- Yn ymdopi'n effeithiol â nifer o gyfrifoldebau allai fod yn gwrthdaro â'i gilydd
- Yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael wrth wneud penderfyniadau

# 7. Arweinyddiaeth

## Cymwyseddau:

a. Ysgogi ac annog grwpiau ac unigolion
b. Rhoi cyfeiriad ac adborth i grŵpiau perthnasol
c. Creu awyrgylch o barch
ch. Trosglwyddo gweledigaeth yn effeithiol i grwpiau ac unigolion
d. Adnabod a deall sut mae eraill yn ymateb i sefyllfaoedd penodol gan barhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth
dd. Annog unigolion ddatblygu eu hunain
e. Adnabod a deall y niwed posib a wneir pan na roddir sylw prydlon i achosion o wrthdaro
f. Annog cydweithrediad a chyfathrebu ar draws ffiniau gwleidyddol a ffiniau'r Cyngor
ff. Gweithio fel pont rhwng Gwasanaethau ac Aelodau pan fydd angen

## Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd aneffeithiol:

- Yn gadael y grŵp ac unigolion yn aneglur o ran cyfeiriad a blaenoriaethau
- Yn tanbrisio neu tanseilio pobl
- Yn ddiffygiol o ran gwybodaeth sylfaenol am rolau aelodau'r grŵp a swyddogion
- Yn creu diwylliant o weld bai
- Yn osgoi rhoi sylw i wrthdaro
- Yn cynnal rheolaeth bersonol trwy drethu barn a bod yn rhy uniongyrchol
- Yn dangos ffafriaeth at aelodau ei blaid ei hun a defnyddio'i statws i hyrwyddo agenda'r blaid ar draul anghenion ehangach y Cyngor
- Yn ynmddwyn yn amddiffynnol, ac yn osgoi gwneud penderfyniadau anodd neu amhoblogaidd
- Yn amharod i gyfaddef ei gamgymeriadau
- Yn dangos diffyg paramedrau clir rhwng ei rôl ef ei hun a rôl Uwch Swyddogion
- Yn ymddwyn mewn ffordd rhy ymatebol
- Yn methu cynllunio ymlaen llaw neu feithrin ymdeimlad o genhadaeth
- Yn methu annog cyfathrebu gyda'r gymuned neu hyrwyddo'r cyngor
- Yn dangos diffyg adnabyddiaeth gyhoeddus fel arweinydd mewn enw
- Yn dangos anghysondeb mewn steil ac ymddygiad
- Yn methu hyrwyddo'r Cyngor ar gyrff allanol
- Yn dangos diffyg dealltwriaeth o wahanol sectorau'r Cyngor
- Yn methu integreiddio gwybodaeth er mwyn darparu trosolwg o weithrediadau'r Cyngor
- Yn cadw at ei safbwynt er gwaethaf tystiolaeth i'r gwrthwyneb
- Yn tanseilio penderfyniadau democrataidd y Cyngor
- Yn methu trosi strategaethau i bolisïau a gweithrediadau

# 8. Darparu Gweledigaeth

## Cymwyseddau:

a. Hyrwyddo gwerthoedd y Cyngor ac yn eu rhannu
b. Creu gweledigaeth wedi'i rhannu i'r Cyngor trwy sefydlu polisïau strategol a blaenoriaethu gweithredoedd
c. Annog pobl eraill i gymryd rhan wrth lunio polisïau
ch. Gweithio ar y cyd er mwyn dadansoddi gwybodaeth a hyrwyddo dealltwriaeth
d. Bod yn agored i syniadau newydd a ffyrdd newydd o wneud pethau

## Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd effeithiol:

- Yn hyrwyddo gwerthoedd y Cyngor drwy ddangos esiampl yn fewnol ac yn gyhoeddus
- Yn ystyried gwerthoedd y Cyngor wrth wneud penderfyniadau
- Yn sefydlu polisïau strategol a blaenoriaethu gweithredoedd yn seiliedig ar anghenion lleol, maniffesto a chyfleoedd rhanbarthol
- Yn gweithio gyda swyddogion i goladu a dadansoddi gwybodaeth a hysbysu blaenoriaethau'r gyllideb a chynlluniau perfformiad
- Yn annog budd-ddeiliaid i gymryd rhan wrth lunio polisïau
- Yn creu gweledigaeth i'r Cyngor sy'n cael ei rhannu, gan ddarparu cyfeiriad clir a hyrwyddo dealltwriaeth
- Yn ymateb yn gadarnhaol i sefyllfaoedd (hyd yn oed os ydynt yn heriol)
- Yn agored i syniadau newydd ac yn addasu'n arloesol i amgylchedd sy'n newid
- Yn gweithredu er mwyn ehangu persbectif ac ehangu effeithiolrwydd trwy ddysgu gan eraill a rhannu arfer dda (e.e. Cynghorau eraill)
- Yn rhoi gweledigaeth a chyfeiriad, gan osod safonau clir o ran ymddygiad a pherfformiad a glynu wrthynt
- Yn cydbwyso anghenion y ward yn erbyn anghenion y Cyngor cyfan

# 8. Darparu Gweledigaeth

## Cymwyseddau:

a. Hyrwyddo gwerthoedd y Cyngor ac yn eu rhannu
b. Creu gweledigaeth wedi'i rhannu i'r Cyngor trwy sefydlu polisïau strategol a blaenoriaethu gweithredoedd
c. Annog pobl eraill i gymryd rhan wrth lunio polisïau
ch. Gweithio ar y cyd er mwyn dadansoddi gwybodaeth a hyrwyddo dealltwriaeth
d. Bod yn agored i syniadau newydd a ffyrdd newydd o wneud pethau

## Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd aneffeithiol:

- Yn canolbwyntio ar faterion dydd i ddydd yn hytrach nag anghenion y dyfodol ac yn methu gweld y tu hwnt i'r etholiad nesaf
- Yn peidio â chynnwys aelodau, swyddogion a'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau
- Yn tueddu i fod yn rhy ddetholus wrth ddefnyddio gwybodaeth i arwain penderfyniadau ynghylch polisïau
- Yn ymwrthod â newid a ffafrio'r 'hen ffordd' o wneud pethau er gwaethaf tystiolaeth i'r gwrthwyneb
- Yn methu tynnu ar brofiadau eraill (e.e. sefydliadau eraill, cymorth gan gyfoedion)
- Yn methu adnabod neu weithredu ar gyfleoedd i hyrwyddo'r Cyngor neu ddylanwadu ar agendau cenedlaethol a rhanbarthol
- Yn tueddu i ystyried pethau'n fewnol
- Yn methu cyfathrebu ac egluro gweledigaeth a pholisïau'r Cyngor
- Yn rhoi ystyriaeth i faterion lleol yn unig ar draul buddiannau'r sir gyfan
- Yn ymateb yn negyddol i sefyllfaoedd heriol

# 9. Rheoli Perfformiad

## Cymwyseddau:

a. Gweithio’n agos gydag eraill i ddatblygu, hyrwyddo a chyflawni amcanion
b. Cynrychioli’r Cyngor ar lefel strategol
c. Annog craffu
ch. Monitro perfformiad (hunan ac eraill)
d. Gweithio’n rhagweithiol (yn hytrach nag ymatebol)
dd. Ymateb yn gadarnhaol i adborth a syniadau
e. Sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau

## Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd effeithiol:

- Yn gweithio'n agos gydag uwch swyddogion ac aelodau eraill y Bwrdd i ddatblygu, cytuno a gweithredu strategaethau portffolio
- Yn gosod amcanion realistig a chyraeddadwy ac yn cyfathrebu'r amcanion hynny
- Yn monitro perfformiad ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Yn datblygu dealltwriaeth o systemau’r Cyngor ac yn cyfleu barn y Cyngor mewn cyfarfodydd maes penodol (e.e. cynllunio, trwyddedu)
- Yn pwysleisio gweithio fel tîm
- Yn rhannu cyfrifoldeb am lwyddiant a methiant
- Yn annog craffu ac yn ymateb yn gadarnhaol i adborth, sialens a syniadau
- Yn cynrychioli’r etholaeth â’r Cyngor ar lefel strategol trwy gysylltiadau â phartneriaethau ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Yn rhoi adborth adeiladol pan fo’n briodol, mewn modd amserol a phositif, gan roi sylw i berfformiad gwael
- Yn adnabod, gwobrwyo a dathlu perfformiad da yn barhaus
- Wedi ei ymrwymo i ddysgu, datblygu eraill a rhannu arferion da
- Yn cael gwerthusiad blynyddol a chynllun datblygu personol

# 9. Rheoli Perfformiad

## Cymwyseddau:

a. Gweithio’n agos gydag eraill i ddatblygu, hyrwyddo a chyflawni amcanion
b. Cynrychioli’r Cyngor ar lefel strategol
c. Annog craffu
ch. Monitro perfformiad (hunan ac eraill)
d. Gweithio’n rhagweithiol (yn hytrach nac ymatebol)
dd. Ymateb yn gadarnhaol i adborth a syniadau
e. Sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau

## Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd aneffeithiol:

- Yn defnyddio cefnogaeth yn anghyson neu’n aneffeithiol
- Yn methu ymgynghori
- Yn dibynnu gormod ar swyddogion neu gefnogaeth allanol
- Yn dangos anhyblygrwydd ac yn ymwrthod â chraffu, a barn ac atebion gwahanol
- Yn creu ymagwedd ‘ni a nhw’ tuag at swyddogion, aelodau eraill neu gynghorau ac asiantaethau allanol
- Yn gweithredu’n gyfrinachol ac yn cau eraill allan o brosesau a gwneud penderfyniadau - yn 'dweud' yn hytrach na 'gwerthu'
- Yn canolbwyntio gormod ar broses a thrafodaeth ac yn methu gwneud penderfyniadau
- Yn methu integreiddio ei bortffolio ei hun yn yr agenda ehangach
- Yn osgoi craffu ac anwybyddu adborth
- Yn osgoi herio perfformiad gwael (gan gynnwys ei hun)

# 10. Datrys Problemau

## Cymwyseddau:

a. Gwneud penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd
b. Ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau sy'n newid
c. Gwneud i bethau ddigwydd drwy ganolbwyntio ar ddatrusiadau
ch. Cydnabod a derbyn bod angen gwneud penderfyniadau anodd
d. Cadw rhagfarn a budd bersonol allan o'r broses gwneud penderfyniadau

## Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd effeithiol:

- Yn casglu gwybodaeth a barn o ffynonellau priodol
- Yn gwneud penderfyniadau amserol, rhesymegol a realistig, gan gadw mewn cof yr holl adnoddau, ffeithiau a'r dewisiadau eraill sydd ar gael gan ystyried unrhyw risgiau
- Yn rhagweld problemau
- Yn ymateb yn hyblyg i flaenoriaethau ac anghenion sy'n newid
- Yn aros yn ddiduedd ac yn rhydd rhag rhagfarn bersonol wrth ystyried ffyrdd o ddatrys problemau, gan gyfiawnhau penderfyniadau neu weithredoedd pan fo raid
- Yn herio ffynhonnell a chywirdeb gwybodaeth os yw'n amwys neu'n annelwig
- Yn gwneud penderfyniadau hyd yn oed pan fo hynny'n anodd
- Yn cynnwys Aelodau eraill yn y broses o wneud penderfyniadau, gan roi eglurhad os na weithredir ar awgrymiadau neu syniadau unigolion
- Yn cydbwyso arloesedd gyda thraddodiad, gan ymchwilio i ffyrdd newydd o ddatrys problemau
- Yn ymateb i broblemau yn frwdfrydig a chadarn

## 10. Datrys Problemau

### Cymwyseddau:

a. Gwneud penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd
b. Ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau sy'n newid
c. Gwneud i bethau ddigwydd drwy ganolbwyntio ar ddatrusiadau
ch. Cydnabod a derbyn bod angen gwneud penderfyniadau anodd
d. Cadw rhagfarn a budd bersonol allan o'r broses gwneud penderfyniadau

### Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd aneffeithiol:

- Yn anwybyddu tystiolaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau
- Yn tanseilio eraill
- Yn osgoi gwneud penderfyniadau anodd
- Yn peidio ag ymateb i gyngor neu gefnogaeth gan swyddogion
- Yn amharod i weithredu lle bo angen
- Yn methu rhagweld problemau